# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Bodelwyddan Residential Care Limited**

**Ffordd Belan**
**Rhosneigr**
**LL64 5JG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13 Ebrill 2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Bodelwyddan Residential Care Limited

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Bodelwyddan Residential Care Ltd. |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers iddo ailgofrestru'n ffurfiol o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yng nghartref Bodelwyddan yn fodlon â'r gofal a roddir iddynt. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu cadw'n brysur, eu bod yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac yn mwynhau'r gwmnïaeth. Mae gan bob unigolyn gynllun gofal y mae'r bobl, eu perthnasau ac unrhyw weithiwr proffesiynol sydd ynghlwm â'u gofal yn cyfrannu ato. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol. Ni chaiff asesiadau cyn derbyn a chofnodion dyddiol o'r gofal a ddarparwyd eu cwblhau'n gyson ac mae hwn yn faes i'w wella. Mae'r staff gofal yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn rhan o dîm; maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan fod y darparwr yn sicrhau ei fod yn eu canmol ac yn diolch iddynt am eu gwaith. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant ar ystod o bynciau perthnasol er mwyn eu helpu i sicrhau arferion effeithiol a diogel. Mae'r cartref yn gyfforddus a chartrefol, gyda digon o gyfleusterau ymolchi arbenigol i ddiwallu anghenion amrywiol y bobl. Gall y bobl eistedd mewn amrywiol leoedd i wylio'r teledu ac i gymdeithasu neu eistedd yn dawel i fwynhau'r heulwen. Mae'r balconi yn ardal braf i eistedd yno i edmygu'r olygfa, ond mae angen gwneud gwelliannau yno er mwyn sicrhau ei fod yn gwbl ddiogel. Mae'r rheolwr yn ceisio barn y bobl sy'n byw yn y cartref, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref er mwyn sicrhau bod pawb yn fodlon ar y gwasanaeth a nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio'r cartref yn dda ac mae'n ymwybodol o'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda, a'r hyn y gall y gwasanaeth ei wneud yn well.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth o ran y gofal a'r cymorth a gânt yn y cartref. Mae'r bobl, eu perthnasau ac unrhyw weithiwr proffesiynol sydd ynghlwm â'u gofal yn cyfrannu at y cynlluniau gofal er mwyn sicrhau bod anghenion a dewisiadau penodol y bobl yn cael eu nodi'n gywir. Gall y bobl ddewis treulio eu hamser yn un o'r tair ystafell eistedd. Mae'r bobl yn symud o gwmpas yn rhydd o un ystafell i'r llall. Mae gweithgareddau ar gael i'r rheini sydd am gymryd rhan ynddynt a digon o lyfrau a phosau i'w cadw'n brysur. Mae'r bobl yn manteisio ar lan y môr lleol os byddant am fynd allan. Mae bwydlen ddyddiol ar gael, ond gall y bobl ddewis rhywbeth arall os byddant yn dymuno gwneud hynny. Mae'r teledu yn y brif lolfa yn cysylltu â'r rhyngrwyd sy'n galluogi'r bobl i wylio ffilmiau o'u dewis neu wrando ar gerddoriaeth.

Gofelir am lesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl gan y staff gofal sy'n ceisio cyngor proffesiynol yn ôl yr angen. Mae'r bobl a'u teuluoedd yn canmol y staff gofal am fynd ati'n rhagweithiol i ofalu am y bobl yn y cartref. Caiff teuluoedd wybod am unrhyw newidiadau i iechyd unigolyn bob amser. Dengys y cofnodion bod anghenion gofal a chymorth y bobl yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn nodi unrhyw newidiadau'n brydlon. Fodd bynnag, ni chaiff asesiadau a gynhelir cyn derbyn eu dogfennu, sy'n cyflwyno'r risg na chaiff rhai anghenion eu nodi. Gall hyn beryglu iechyd a llesiant y bobl.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag arferion gwael, camdriniaeth ac esgeulustod gan fod y staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau ar waith i'w harwain. Mae'r rheolwr ar gael bob amser ac felly gall y staff drafod unrhyw bryderon ar unwaith. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallant siarad yn rhydd ag ef ar unrhyw adeg.

Mae'r bobl yn mwynhau byw yn y cartref ac yn ei ystyried yn lle cyfforddus a chartrefol. Mae'n lân, yn daclus, yn gynnes, yn olau ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae pob ystafell wely wedi cael ei phersonoli gyda ffotograffau, ornamentau a phethau eraill sydd o bwys i'r bobl. Ceir cyfleusterau en-suite yn y rhan fwyaf o'r ystafelloedd gwely ac mae ystafelloedd ymolchi a chawod ar gael wedi'u cynllunio i'r bobl eu defnyddio'n rhwydd ac yn ddiogel. Mae'r canllawiau cydio a'r cymhorthion symudedd yn helpu'r bobl i symud o gwmpas yn annibynnol os gallant a cheir lifft grisiau sy'n eu galluogi i symud o un llawr i'r llall. Mae'r balconi yn lle braf i'r bobl eistedd a mwynhau'r olygfa; mae angen gwneud gwaith arno er mwyn sicrhau ei fod yn gwbl ddiogel gan ei fod yn peri risg i'r bobl sy'n byw yn y cartref ar hyn o bryd.

## Gofal a Chymorth

Ni chaiff ystod eang o safbwyntiau a gwybodaeth berthnasol eu hystyried yn amserol bob amser er mwyn canfod p'un a all y gwasanaeth ddiwallu anghenion yr unigolyn. Mae'r wybodaeth a geir gan y bobl, eu teuluoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol yn llywio'r cynlluniau darparu gofal a chaiff y staff eu cyfarwyddo gan y rhain. Gwelsom fod cynlluniau darparu gofal ar waith ar gyfer pob unigolyn a chânt eu cadw'n gywir drwy adolygu anghenion y bobl yn rheolaidd. Dywedodd y teuluoedd wrthym eu bod yn cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau neu bryderon. Maent yn teimlo bod y staff yn eu cynnwys yng ngofal yr unigolyn a bod eu barn yn cael ei hystyried. Mae y bobl i gyd y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a ddarperir gan "*kind staff*" sydd wedi "*become our friends"*. Gwelsom nad oedd y cofnodion sy'n nodi'r gofal a'r cymorth a roddir yn cael eu cwblhau'n ddyddiol; nid oes tystiolaeth i ddangos sut mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau. Gwelsom hefyd nad oedd yr asesiadau cyn derbyn yn cael eu cwblhau'n gyson cyn i unigolyn aros yn y cartref er mwyn sicrhau y caiff yr anghenion eu nodi ac y gall y gwasanaeth eu diwallu. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r cynlluniau gofal yn ystyried anghenion a dewisiadau'r bobl sydd angen gofal a chymorth. Mae dogfen 'Dyma fi' yn darparu mwy o hanes personol unigolion ac yn amlinellu'r wybodaeth a ddarperir gan deuluoedd a'r bobl eu hunain am eu dewisiadau personol, hobïau a diddordebau, hoff fwyd a'r hyn roeddent yn mwynhau gwneud yn y gorffennol. Caiff y bobl sy'n mwynhau cerddoriaeth eu cefnogi i wrando ar eu hoff gantorion, a gall y bobl sy'n mwynhau darllen ddewis llyfrau a gaiff eu cadw ar silff lyfrau hygyrch. Mae'r bobl yn dewis ble yr hoffent dreulio eu hamser a pha weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt; maent yn sgwrsio ac yn mwynhau cwmni'r bobl eraill y maent wedi meithrin cydberthnasau â nhw. Gwelsom ymwelwyr yn eistedd mewn lolfa dawel a braf i fwynhau amser preifat gyda'u perthnasau. Gwelsom ffotograffau o deithiau i'r ardal leol a'r bobl yn mwynhau'r môr a'r heulwen.

Caiff y bobl gymorth i gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill er mwyn cynnal eu hiechyd a'u llesiant yn barhaus. Dywedodd perthnasau wrthym eu bod yn hapus fod y staff gofal yn treulio amser yn trafod unrhyw faterion â nhw; maent yn hapus bod y cartref yn ceisio cyngor iechyd ar unwaith pan fo angen. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn ymweld â'r bobl yn y cartref; maent yn adolygu eu meddyginiaeth ac yn monitro eu hiechyd. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu, dementia ac ar anghenion iechyd meddwl. Gwelsom fod y staff yn rhyngweithio mewn ffordd gynnes a chyfeillgar â'r bobl; maent yn dangos amynedd a gofal, yn ymgysylltu â'r bobl mewn ffordd gadarnhaol ac yn tynnu coes yn gyfeillgar. Dywedodd teulu un unigolyn wrthym sut roedd y "*staff can't do enough"*, a "*they are kind".*

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr yn sicrhau bod gofal y bobl yn cael ei ddarparu mewn lleoliad ac amgylchedd sy'n helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn agos at lan y môr ac mae'r bobl yn mwynhau eu teithiau i'r traeth. Disgrifir y cartref fel lle cartrefol gan y bobl a'u teuluoedd ac mae eu hystafelloedd wedi'u personoli i adlewyrchu eu chwaeth bersonol. Mae ffotograffau, swfeniriau a phethau sydd o bwys i'r bobl wedi'u gosod ar y waliau. Mae canllawiau cydio o amgylch y waliau er mwyn helpu'r bobl i symud o gwmpas yn ddiogel ac mae'r lifft grisiau yn galluogi'r bobl i symud o lawr i lawr yn ddiogel. Ceir bath y gellir camu i mewn iddo, ystafell wlyb gyda chawod a bath sy'n codi gyda theclyn codi i ddiwallu anghenion pawb. Mae digon o ddodrefn yn yr ystafell fwyta er mwyn i bawb eistedd yno, er bod rhai yn dewis bwyta yn eu hystafelloedd. Ceir ystafelloedd eistedd gwahanol er mwyn i'r bobl gymdeithasu, gwylio'r teledu, gwrando ar gerddoriaeth neu ddarllen yn dawel yn yr heulfan.

Gall y bobl fwynhau eistedd yn yr ardd ym mlaen yr eiddo lle mae dodrefn hefyd. Mae balconi ar y llawr cyntaf sy'n wynebu'r de a golygfeydd tuag at y môr. Mae'r bobl wedi mwynhau partïon yno i ddathlu amrywiol ddigwyddiadau. Gall y bobl fynd ar y balconi drwy allanfa dân nad yw'n canu'r larwm i hysbysu'r staff wrth iddi gael ei hagor ar hyn o bryd. At hynny, mae angen gwneud gwaith ar y balwstrad er mwyn sicrhau ei fod yn gwbl ddiogel. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â hyn.

Mae pob rhan o'r cartref yn lân ac yn daclus iawn, gan ddarparu lle cyfforddus a chartrefol i fyw ynddo. Dywedodd perthnasau wrthym fod y staff yn groesawgar wrth iddynt ymweld â'r cartref a'i fod bob amser yn lân ac yn gynnes. Caiff staff domestig eu cyflogi'n ddyddiol ac eithrio ar ddydd Sul er mwyn gwneud yn siŵr fod pob rhan o'r cartref yn lân.

Ni chaiff risgiau i iechyd a diogelwch bob amser eu nodi na'u lliniaru i amddiffyn llesiant y bobl. Mae'r diffyg larymau ar y drysau tân er mwyn hysbysu'r staff fod rhywun wedi gadael yr adeilad a'r atalfa annigonol o amgylch y balconi yn peri risgiau i lesiant y bobl. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos fod yr ystafelloedd yn cael eu gwirio'n rheolaidd a bod unrhyw feysydd sydd angen eu hatgyweirio neu eu hadnewyddu wedi cael eu nodi yn y llyfr cynnal a chadw. Gwelsom fod y rhain yn cael eu dyddio wedi iddynt gael eu datrys. Caiff gwiriadau diogelwch eu cynnal ar osodiadau trydan, diogelwch nwy, diogelwch a thymereddau dŵr a chyfarpar diogelwch tân. Mae ystod o asesiadau risg i'w cael yn ffeil pob unigolyn sy'n helpu i sicrhau ei fod yn cael ei gadw'n ddiogel wrth iddo fyw yn y cartref, ac mae ganddo gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae darparwr y gwasanaeth wedi sefydlu trefniadau llywodraethu er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn rhwydd ac yn effeithiol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref unwaith yr wythnos o leiaf a chaiff adroddiad ar gynnydd y cartref ei lunio ganddo bob tri mis.

Mae'r unigolyn cyfrifol hefyd yn cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal ac yn llunio adroddiadau ar ei ganfyddiadau o'r hyn y mae'r bobl yn ei ddweud sy'n gweithio'n dda a lle mae angen gwneud gwelliannau. Cesglir barn y bobl, eu perthnasau a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref drwy holiaduron. Gwelsom fod yr ymatebion yn gadarnhaol iawn a bod y bobl y canmol y gwasanaeth.

Caiff digon o staff eu cyflogi er mwyn diwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref ac mae pob un ohonynt wedi cael hyfforddiant er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn darparu gofal a chymorth effeithiol. Gwnaethom siarad â'r staff a ddywedodd wrthym eu bod yn cydweithio fel tîm; maent yn cefnogi ac yn gwerthfawrogi ei gilydd. Dengys y cofnodion fod y staff wedi cael hyfforddiant ar ystod o bynciau sy'n berthnasol i anghenion y bobl yn y cartref. Caiff y staff eu llywio gan ystod o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol y mae'n rhaid i bob un ohonynt eu llofnodi er mwyn cadarnhau eu bod wedi ymgyfarwyddo â nhw. Mae'r staff gofal yn cyfarfod â'r tîm rheoli i gael sesiynau goruchwylio un i un, er mwyn myfyrio ar arferion a'u cyfraniadau. Maent yn cael arfarniadau blynyddol ac yn cael eu hannog i argymell pynciau ar gyfer hyfforddiant ychwanegol os byddant yn nodi maes i'w ddatblygu. Mae prosesau recriwtio diogel ar waith a dengys y cofnodion fod pob aelod o'r staff yn cael ei fetio'n briodol cyn iddo ddechrau ei gyflogaeth.

Gwnaethom siarad â'r staff a ddywedodd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi; maent yn cael diolch am eu cyfraniadau yn aml; caiff eu bywydau personol eu hystyried a rhoddwyd enghreifftiau i ddangos pam eu bod yn teimlo bod eu llesiant o bwys i'r darparwr. Dywedodd staff gofal wrthym, “*It’s like family here. I have made friends for life”.*

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Nid oes larymau wedi cael eu gosod ar yr allanfeydd tân er mwyn hysbysu'r staff bod rhywun wedi gadael drwyddynt. Nid oes atalfeydd digonol ar y balconi ar y llawr cyntaf i atal y risg o gwympiadau. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 59 | Nid oes unrhyw wybodaeth yn y ddogfen asesu cyn derbyn a gaiff ei chadw yn ffeiliau'r cynlluniau gofal. Mae'n wag. Ni chedwir cofnodion dyddiol o sut y caiff gofal a chymorth eu darparu. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 19 Mai 2023